CRADOCK, Syr MATHEW neu MATHIAS (1468? - 1531), swyddog brenhinol yn Ne Cymru

Enw: Mathew Cradock
Dyddiad geni: 1468?
Dyddiad marw: 1531
Priod: Katherine Warbeck (née Gordon)
Priod: Alice Cradoc (née Mansel)
Plentyn: Margaret Herbert (née Cradock)
Rhiant: Jennet Horton
Rhiant: Richard ap Gwilim ap Evan ap Cradock Vreichvras
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: swyddog brenhinol yn Ne Cymru
Maes gweithgaredd: Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Yr oedd yn un o ddisgynyddion Einion ap Collwyn, ac yn fab i Richard ap Gwilim ap Evan ap Cradock Vreichfras a Jennet Horton o Gastell Cantelupeston (Candleston), ger Newton, Sir Forgannwg. Fel swyddog dywedir iddo fod yn feddiannol ar awdurdod mawr yn Ne Cymru. Disgrifir ef ar ei feddfaen fel dirprwy i Charles, iarll Worcester, ym Morgannwg, fel canghellor y cyfryw, ac fel ystiward G yr a Chilfai. Credir iddo fod yn ystiward G yr yn 1491 a 1497. Apwyntiwyd un Matthew Cradok yn gwnstabl cestyll Kayre Filli a Kenfike yn Ne Cymru 6 Mawrth 1485-6 (*Pat. Rolls*, 1 H. VII), ac, yng Ngorffennaf 1491, rhoddir comisiwn i un Matthew Cradok neu Cradoke ac eraill i gasglu tuag at ryfel y brenin yn erbyn Ffrainc yn arglwyddiaethau ' Cardif, Glamorgan, Morgannok, Gower, Ilande, Uske, Carlyon ' (*Pat. Rolls*, 6 H. VII). Nodir hefyd Matthew Craddoke o Lundain neu Abertawe fel un a dderbyniodd bardwn am fethu ymddangos i ateb cyhuddiad o flaen ustusiaid y brenin, 6 Chwefror 1504-5 (*Pat. Rolls*, 20 H. VII). Canodd y bardd cyfoes Iorwerth Fynglwyd ddwy gerdd yn cyfeirio at Syr Mathew, un pan garcharwyd y bardd ganddo yn Abertawe, ac un yn dymuno cael ei gymodi ag ef (Lewis a Jones, *Mynegai*). Priododd (1), Alice, merch Philip Mansel o Gastell Oxwich, a (2), Katherine Gordon, gweddw Perkin Warbeck. Bu iddo ferch, Margaret, o'r wraig gyntaf. Priododd hi Richard Herbert o Ewyas, sir Henffordd, a hwy oedd rhieni William Herbert a wnaed yn iarll Penfro, 1551. Bu farw rhwng 14 Mehefin a 16 Awst 1531 a chladdwyd ef yn Abertawe.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

J. M. Traherne, *Historical Notices of Sir Matthew Cradock, Knt., of Swansea, in the reigns of Henry VII. and VIII* (Llanymddyfri 1840)

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

R. T. Williams, *Cymry Enwog Cyfnod y Tuduriaid, a'u dylanwad ar hanes eu hamserau. Eminent Welshmen of the Tudor Period, and their influence on the history of their times* (Bala 1915)

F. J. Harries, *The Welsh Elizabethans* (Pontypridd 1924)

Archaeologia Cambrensis, 1886, 342

ibid, 1894, 127

Index of Wills proved in the Prerogative court of Canterbury, 1383-1558 (1893-1919), Index Library No. 10

The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom (1887–1898)

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732713

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu